# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 10 Rhagfyr 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, H.Jenkins, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, C.Furlow-Harris, T.Davies, R.Headon, C.Jones, K.Warren, S.Brennan, D.Griffiths, P. Jackson, Clarke, C.Plowman a/ac R Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2020.

2. **DIWEDDARIAD LLAFAR AM WASANAETH PROFI, OLRHAIN A DIOGELU**

Cyflwynwyd diweddariad llafar i'r Aelodau ar y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (POD). Cyn rhoi dadansoddiad o'r ystadegau a'r darlun cyffredinol cyfredol, amlygodd Swyddogion fod y ffigurau'n giplun mewn amser o sefyllfa hynod ddeinamig a bod y niferoedd yn cynyddu ar hyn o bryd.

Ffigurau Lleol

Dywedwyd bod y Gwasanaeth POD yn Rhanbarth Bae Abertawe dros y saith niwrnod diwethaf wedi derbyn 2,604 o achosion mynegai newydd gyda bron i 5,000 o gysylltiadau yn gysylltiedig â'r achosion hynny, ac yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y saith niwrnod

diwethaf roedd y Gwasanaeth POD wedi derbyn 1,124 o achosion mynegai newydd a 2,536 o gysylltiadau yn gysylltiedig â'r achosion hynny.

Ychwanegodd Swyddogion fod yr epidemioleg yn dangos ei bod yn ymddangos yn gyson bod mwy o gysylltiadau'n gysylltiedig â phob achos yn ardal Castell-nedd Port Talbot nag yn Abertawe.

Ffigurau Cenedlaethol

O ran ffigurau cenedlaethol, nodwyd bod y ffigur saith niwrnod o achosion yn nodi mai Castell-nedd Port Talbot oedd yr uchaf yng Nghymru ar hyn o bryd gyda 697.1 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth; Merthyr Tudful oedd yr uchaf ond un gyda 668 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth ac roedd Abertawe yn bumed yng Nghymru gyda 549.8 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Ffigurau Profion Positif

Hysbyswyd yr Aelodau mai Castell-nedd Port Talbot oedd yr ail uchaf yng Nghymru ar gyfer nifer y profion y nodwyd eu bod yn bositif, ar 25.5%; Merthyr Tudful oedd y cyntaf gyda chyfradd bositif o 28.7% ac roedd Abertawe yn 23%.

Dadansoddiad Grŵp Oedran

Dywedwyd bod yr achosion positif yn bennaf o fewn y boblogaeth oedran gweithio (pobl 40-49 oed a 50-59 oed); fodd bynnag, yn yr wythnosau diwethaf, bu cynnydd yn nifer yr achosion positif o fewn y grwpiau oedran iau (pobl ifanc 10-19 oed a phobl 20-29 oed) a oedd yn cael ei fonitro'n agos a'i ddadansoddi.

Clystyrau a Lleoliadau Cyswllt

Hysbyswyd y Pwyllgor fod 22 o gartrefi gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd ag achosion parhaus a bod lefel uchel o bryder ynghylch sefydlogrwydd y sector cartrefi gofal a gofal cymunedol yn gyffredinol; oherwydd hyn roedd problemau parhad busnes yn cael eu profi ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod nifer o glystyrau mewn gweithleoedd agored a chaeëdig ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Ysgolion

Amlygwyd bod 27 o ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi adrodd mwy nag un achos yn y 14 diwrnod diwethaf. Fodd bynnag, roedd hyn yn fwy tebygol o fod o ganlyniad i'r cynnydd yn ymlediad y feirws mewn aelwydydd; roedd y dystiolaeth yn parhau i ddangos nad oedd ymlediad eang yn amgylchedd yr ysgol a bod llawer o'r

achosion yn yr ystod oedran ysgol o ganlyniad i'r hyn a oedd yn digwydd gartref ac yn ystod gweithgareddau y tu allan i'r ysgol megis partïon pen-blwydd a hyfforddiant chwaraeon. Ychwanegwyd, er bod y feirws yn cael ei drosglwyddo mewn ysgolion, eu bod, yn gyffredinol, yn darparu amgylchedd diogel a reolir o ran COVID-19.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth POD wedi datblygu perthnasoedd gwaith cryf gydag Uwch Reolwyr yn Adran Addysg y cyngor a bod deialog rheolaidd yn cael ei chynnal rhwng y Gwasanaeth POD, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd rhanbarthol a'r Penaethiaid Ysgolion.

Cadernid POD

Esboniodd Swyddogion mai un o'r prif heriau ar hyn o bryd i'r Gwasanaeth POD oedd y llwyth gwaith uchel iawn a oedd yn rhoi straen ar y gwasanaeth gan fod y staff yn cael anhawster â'r llwyth achosion; roedd y cyngor yn ceisio cymorth ar y cyd yn ddyddiol a sefydlwyd tîm cenedlaethol lle gellid cyflwyno ceisiadau gan gynghorau ledled Cymru. Fodd bynnag, o ystyried y galw ledled Cymru, nid oedd llawer o gymorth ar y cyd yn cael ei dderbyn. Ychwanegwyd bod gan y gwasanaeth lefel gyfyngedig o adnoddau o ran staff, yn enwedig yn rhanbarthol; roedd lles staff hefyd yn bryder oherwydd maint y straen a phryder a gorfod ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Soniwyd bod y gwasanaeth ar hyn o bryd yng nghanol rhaglen dreigl o recriwtio ar gyfer Swyddogion olrhain, ymgynghorwyr, goruchwylwyr a dadansoddwyr data; roedd cynifer ag 80 o swyddi i'w llenwi i gyflawni'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn allu gorau, fodd bynnag, yn logistaidd, roedd yn cymryd llawer o amser i benodi'r bobl gywir yn y rolau cywir. Ychwanegodd Swyddogion eu bod, yn y cyfamser, yn ceisio adalw staff a oedd wedi'u hadleoli i'r gwasanaeth yn flaenorol i ddatblygu gwydnwch yn y tymor byr wrth i recriwtio barhau.

Oherwydd y diffyg arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sut i ymdrin â'r lefel uchel o achosion a dderbyniwyd, amlygodd Swyddogion fod fframwaith blaenoriaethu'n cael ei lunio er mwyn ceisio ymdrin â'r llwyth gwaith yn effeithlon.

Gorfodi COVID-19

Nodwyd bod tîm o Swyddogion Gorfodi wedi'u recriwtio, gan weithio yn ôl eu trefn gyda thimau gan gynnwys y Gwasanaeth POD, Iechyd yr Amgylchedd ac Adran Drwyddedu'r cyngor i sicrhau bod y cyhoedd

a mangreoedd busnes yn cydymffurfio; Roedd Swyddogion yn derbyn llawer o adborth cadarnhaol o ran y grŵp penodol hwnnw o staff. Ychwanegwyd bod y cyngor a'r gwasanaethau cysylltiedig hefyd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod ymateb cydlynol yn cael ei ddarparu.

Cyfathrebu

O ran cyfathrebu, nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Thîm Cyfathrebu'r cyngor i gyflwyno'r neges gyfredol bod ymddygiad unigol yn allweddol; dangosodd y dystiolaeth mai diffyg cydymffurfiaeth unigolion yn y cartref a lleoliadau cymdeithasol oedd yn gyfrifol am y cynnydd yn y niferoedd lleol ac ar draws Cymru. Roedd Swyddogion yn pryderu am y diffyg cydymffurfio â gofynion hunanynysu, a oedd yn ei gwneud yn anodd datblygu a gweithredu mesurau lliniaru. Soniwyd bod naws y cyfathrebu â'r cyhoedd wedi'i newid yn ddiweddar er mwyn ceisio herio pobl i gyflawni eu lefelau cyfrifoldeb.

Mewn perthynas â thimau gorfodi COVID-19, gofynnwyd a allai Swyddogion ddarparu enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu y bu'n rhaid i'r timau eu cymryd. Esboniwyd, unwaith y byddai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd rhanbarthol wedi casglu gwybodaeth am ble roedd achosion a chlystyrau o achosion yn dod i'r amlwg, y byddent yn cydlynu â'r Swyddogion Gorfodi, a fyddai wedyn yn mynd allan i'r gymuned i drafod gyda'r gweithleoedd a'r mangreoedd a nodwyd pa fesurau oedd ganddynt ar waith, i'w gwneud yn ymwybodol o'r hyn y dylent fod yn ei wneud, a gwirio a oeddent yn cydymffurfio â'r hyn y dylent fod yn ei wneud. Yn ei hanfod, mae'r Swyddogion Gorfodi'n cysylltu â'r hyn yr oedd yr wybodaeth yn ei ddangos wrth i'r achosion ddod i'r amlwg ac yn mynd allan i'r gymuned i fod yn weladwy ac i ddal y mangreoedd hynny i gyfrif.

Gofynnodd yr Aelodau, oherwydd y lefelau uchel presennol o achosion yng Nghastell-nedd Port Talbot, a roddwyd ystyriaeth i gyflwyno profion asymptomatig a weithredwyd yn ddiweddar ar draws rhai cynghorau eraill yng Nghymru? Dywedwyd bod yr holl opsiynau wedi'u hystyried, gan gynnwys profion ar draws y gymuned, fodd bynnag nid ystyriwyd ei fod yn ddatrysiad o fewn y cyd-destun lleol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd roedd y galw am brofion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn sylweddol, gyda'r cyfleuster profi ym Margam y tu hwnt i'w allu 100% ac yn yr un modd yr unedau profi deithiol; Ar hyn o bryd roedd Swyddogion yn edrych ar ffyrdd posib o adeiladu ar

adnoddau profi yn yr ardal. Hysbyswyd yr Aelodau fod y Tîm Rheoli Digwyddiadau wedi bod yn cwrdd sawl gwaith yr wythnos gan edrych ar y data a'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y ffordd yr oedd y feirws yn ymddwyn yn y gymuned, byddent yno’n adolygu'r mesurau rheoli presennol ar gyfer yr ymagwedd gyfan ar draws y rhanbarth gan gynnwys cyfathrebu a gorfodi; byddai'r Tîm Rheoli Digwyddiadau wedyn yn gwneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau gweithredu pellach yr oedd angen eu hystyried yn sgîl yr wybodaeth ddiweddaraf. Fel y soniwyd, ystyriwyd cynnal profion torfol gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau, fodd bynnag, ar hyn o bryd, y cyngor arbenigol a gafwyd gan gydweithwyr Iechyd Cyhoeddus oedd na fyddai'r profion torfol yn helpu i rheoli maint presennol y broblem ac y byddai'n ymestyn yr adnoddau yr oedd eu hangen i dargedu mesurau eraill, gan gynnwys cefnogi'r broses frechu dorfol yn y dyfodol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod nifer o bobl a oedd yn rhan o'r broses yn gwirio’r mesurau rheoli sawl gwaith yr wythnos; codwyd nifer o bwyntiau gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen am gyfyngiadau pellach, er mwyn ceisio rheoli nifer yr achosion.

Gofynnwyd a ellid ystyried bod ysgolion yn symud i ddysgu o bell yn y cyfnod cyn y Nadolig oherwydd er bod nifer yr achosion mewn ysgolion yn isel, roedd potensial i’r feirws ymledu i fwy o bobl a fyddai'n golygu bod grwpiau mwy o unigolion yn gorfod hunanynysu yn agos at gyfnod y Nadolig; dyfalwyd y byddai rhai rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol yn yr wythnos sydd i ddod oherwydd y rhesymau hyn. Eglurodd y Swyddogion fod yn rhaid iddynt gymryd y cyngor epidemiolegol yn y mater hwn a bod angen iddynt sicrhau'r cydbwysedd cywir, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wnaed er budd pob disgybl gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig a diamddiffyn. Nodwyd y byddai rhai disgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau dysgu o bell, fodd bynnag byddai eraill na fyddent yn cymryd rhan ynddynt; roedd hefyd angen sicrhau tegwch disgyblion a rhaid i ystyriaethau diogelu fod yn flaenoriaeth hefyd. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion yn cwrdd gyda'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn ddiweddarach yn y prynhawn a bydd angen iddynt aros am ganlyniad y cyfarfod hwnnw; fodd bynnag, ar hyn o bryd y bwriad oedd y byddai pob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cau ddydd Gwener 18 Rhagfyr. Ychwanegwyd bod angen deall hefyd, yn weddol gyflym, beth fyddai'r trefniadau agor ym mis Ionawr gan gynnwys sut y byddai'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd â pholisi a strategaeth Cymru gyfan ar geisio atal y feirws.

Gofynnwyd i Swyddogion egluro'r broses benderfynu o ran amserlen agor a chau'r ysgolion yn unol â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn lleol o ran achosion positif mewn ysgolion, gan fod awdurdodau lleol eraill wedi gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch pryd y byddent yn cau ar gyfer y Nadolig. Dywedwyd y byddai'n ddymunol cael ymagwedd gyson ledled Cymru o ran trefniadau agor a chau; fodd bynnag, bu'n rhaid i Swyddogion ystyried yr holl ffactorau, gan gynnwys y risgiau posib o gael nifer mawr o blant nad ydynt mewn ysgolion, i wneud penderfyniad cytbwys. O ran tystiolaeth, amlygwyd bod protocol ar waith lle byddai Pennaeth, sy'n ymwybodol o achos yn yr ysgol, yn cysylltu â rhywun yn y Gwasanaeth POD rhanbarthol; roedd hyn yn effeithiol gan ei fod yn helpu'r broses i symud yn fwy effeithlon, gan mai Penaethiaid yn y bôn oedd y bobl gyntaf i fod yn ymwybodol o achos positif mewn ysgolion a gallai aros am arwydd gan hysbyswyr eraill fel POD gymryd amser. Yn dilyn hyn, byddai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd rhanbarthol yn penderfynu i ba raddau yr oedd angen i ddisgyblion a staff hunanynysu ar sail y dystiolaeth, gan ystyried hefyd y math o gyswllt a wnaed a maint y swigod yr oedd gan yr ysgol ar waith.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Tîm Cyfathrebu roi gwybodaeth am beryglon cynnal digwyddiadau cymunedol yn y cyfnod cyn y Nadolig, gan y sylwyd bod rhai cymunedau llai yn y Fwrdeistref Sirol yn cynllunio ac yn hysbysebu digwyddiadau Nadolig. Nododd Swyddogion sylwadau'r Aelodau a dywedon nhw y byddent yn rhoi gwybod i'r Tîm Cyfathrebu am y cais hwn.

O ran profion, gofynnwyd pam nad oedd adnoddau pellach yn cael eu cyflwyno yn syth i helpu gyda'r galw. Dywedodd Swyddogion fod opsiynau'n cael eu hystyried gan fod cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn edrych yn gyson ar adnoddau profi'n lleol, gan edrych ar sut y gellid cynyddu hyn. Ychwanegwyd bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cwrdd ddwywaith yr wythnos gyda'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd a bod gwahanol opsiynau'n cael eu hystyried yn weithredol; Dywedodd Swyddogion y byddent yn rhoi diweddariadau cyson i'r Aelodau, wrth i'r sefyllfa newid.

Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (Ceri Morris) yn dosbarthu nodyn briffio i'r Aelodau a fyddai'n cynnwys prif bwyntiau diweddariad y Gwasanaeth POD.

Diolchodd y Pwyllgor i bawb a oedd wedi gweithio i'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu ac a oedd yn dal i weithio i'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Yn dilyn y broses graffu, nodwyd y diweddariad.

## 3. DIWEDDARIAD AM BANEL AELODAU COVID-19 - CAM ADFER

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru mewn perthynas â Phanel Aelodau COVID-19 – Y Cyfnod Adfer a oedd yn cynnwys crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd gan y Panel hyd yma.

Amlygwyd bod enw'r Panel wedi newid yn ddiweddar i 'Coronafeirws – Panel Aelodau' gan fod yr amgylchiadau wedi newid ers ei sefydlu gyntaf.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r broses adfer o'r pandemig ac os rhagwelwyd y byddai cyfnod adfer yn dechrau yn ystod misoedd cyntaf 2021. Yn flaenorol, dechreuodd y cyngor feddwl rhywfaint am y broses adfer yn ystod haf 2020, pan oedd cyfraddau heintiau yn isel iawn, ond ymhen ychydig wythnosau, newidiodd y sefyllfa yn sylweddol. Dywedodd Swyddogion eu bod yn gobeithio y byddai'r cynllunio ar gyfer adferiad yn ailddechrau erbyn y Pasg pan fyddai'r rhaglen frechu wedi gwneud cynnydd sylweddol, fel y gellid cynnal trafodaethau gydag Aelodau a'r cymunedau dros yr haf ynghylch sut y bydd yr adferiad yn datblygu. Ychwanegwyd nad oedd y broses adfer yn un linol ac roedd gweithgareddau eisoes yn cael eu cynnal gydag adferiad mewn golwg gan gynnwys datblygu'r gwaith o gwmpas y gwersi a ddysgwyd dros y 9 mis diwethaf i sicrhau na chollwyd hyn; cafwyd rhai effeithiau uniongyrchol hefyd, er enghraifft y gwaith a oedd yn ymwneud â digartrefedd a cheisio datblygu rhai modelau ar gyfer symud y bobl a oedd mewn tai dros dro ar hyn o bryd, i drefniadau mwy parhaol.

Diolchodd yr Aelodau i bawb a fu'n ymwneud â chyfrannu at waith y Panel a'r Grŵp Ffocws.

Yn dilyn y broses graffu, nodwyd y diweddariad.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Cyflwynwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 i'r Pwyllgor gyda'r camau gweithredu i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

Gofynnodd yr Aelodau faint o staff yr oedd y cyngor wedi'u cyflogi a oedd ar gontractau dim oriau a'r rhesymu y tu ôl i pam yr oeddent ar y

math hwn o gontract. O ran y rheswm, nodwyd bod yr unigolion wedi dewis ymgymryd â chontractau achlysurol ar gyfer gwaith, er enghraifft yn y Tîm Arolygu yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, roedd nifer cymharol fach o staff a oedd â rhesymau penodol dros fod ar y math hwnnw o gontract ac mae'r unigolion hyn yn sicrhau eu bod ar gael ac yn gallu gwrthod gwaith os yw'n addas iddynt; nid oedd patrwm gwaith penodol y gellid ei gynllunio ymlaen llaw ar eu cyfer. Cadarnhawyd y byddai Swyddogion yn dosbarthu union nifer y staff ar gontractau dim oriau i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd na chafwyd unrhyw adborth o ddigwyddiad a gynhaliwyd gyda'r Gymuned Arfer ar gyfer Cynnwys a Chyfranogiad er mwyn cael cipolwg ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r grwpiau y maent yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd; gofynnwyd pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad a pham na chafwyd unrhyw adborth. Esboniwyd y gofynnwyd i Swyddogion Cyfranogiad y cyngor ar draws gwahanol feysydd y cyngor (gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi'r cyngor ieuenctid, fersiwn plant sy'n derbyn gofal y cyngor ieuenctid a'r cyn-filwyr cymunedol) fwydo unrhyw farn neu dystiolaeth a allai gefnogi datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; wrth i'r amcanion cydraddoldeb gael eu drafftio, gofynnwyd i'r Swyddogion hyn ystyried a oedd yr amcanion cywir wedi'u dewis ai peidio. Fodd bynnag, oherwydd amseru'r pandemig, amharwyd ar y gwaith cynnwys â'r rhwydwaith hwn o Swyddogion. Amlygwyd pwysigrwydd eu mewnbwn a'r angen i barhau â'r gwaith hwn fel rhan o'r gweithredu.

Gofynnwyd a oedd y gwaith o wella mynediad corfforol i gyfleusterau'r Pwyllgor yng nghanolfannau dinesig Castell-nedd a Phort Talbot yn ddichonadwy o hyd ac, os felly, pryd y byddai'n cael ei wneud; y cynllun o hyd oedd gwella'r trefniadau mynediad i Aelodau, yn enwedig yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot gan fod rhai anawsterau o ran mynediad, yn enwedig yn Siambr y Cyngor. Nodwyd bod llawer o waith yn cael ei wneud cyn y pandemig, ac un o'r prif ddarnau o waith a ystyriwyd oedd clirio hen ardal y gegin nad oedd yn cael ei defnyddio mwyach a'i throi'n ystafell gyfarfod gan ei bod yn lle hygyrch iawn; byddai cael ystafell gyfarfod i lawr y grisiau yn fuddiol gan mai un o'r problemau o ran cynnal cyfarfodydd ar y lloriau uchaf oedd y byddai'n rhaid i rywun yn y cyfarfod hwnnw fod yn gyfrifol am weithdrefnau ymarfer gadael yr adeilad a chael ei hyfforddi i wneud hynny, pe bai tân er enghraifft.

Mewn perthynas â datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cyngor yn gwneud ffactorau fel oedran, rhyw,

swydd, enwau ac oedrannau yn anhysbys fel nad oedd unrhyw ragfarn anymwybodol pan dderbyniwyd ceisiadau am swyddi ac, os caiff ei fabwysiadu, beth fyddai'r amserlen ar gyfer ei roi ar waith. Cadarnhaodd Swyddogion fod y Pennaeth Adnoddau Dynol (Sheenagh Rees) eisoes wedi nodi gwaith yr oedd angen ei roi ar waith ar ffurflenni cais y cyngor fel rhan o'r gwaith cydraddoldeb rhyw ac roedd trafodaeth wedi dechrau ag undebau llafur a'r gweithlu ynghylch agwedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar hyn hefyd; byddai llawer o'r mesurau y byddai'r cyngor yn bwriadu eu cyflwyno fel rhan o gydraddoldeb rhyw hefyd yn helpu o ran ceisio cael pobl i sefyllfa lle nad oes ganddynt ragfarn anymwybodol bryd hynny yn y broses ddethol. Ychwanegwyd bod Swyddogion hefyd yn bwriadu datblygu trafodaeth barhaus â'r gweithlu ynghylch agenda Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a bod nifer o staff â diddordeb mawr mewn helpu gyda'r meddylfryd hwn. O ran yr amserlen, nodwyd bod cynllun gweithredu eisoes wedi'i roi ar waith a byddai Swyddogion yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y dyddiadau arfaethedig ynghylch gweithredu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y trefniadau monitro a'r blaenoriaethau. Esboniodd Swyddogion fod gan y cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol a bu'n rhaid iddo weithio o gwmpas amserlen benodol ar ei gyfer; yn gynharach yn y flwyddyn rhoddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyfnod gras o ran yr amserlen ar gyfer atgyfeirio cynlluniau, fodd bynnag roeddent yn daer bod angen cyhoeddi'r cynlluniau ar ddiwedd y flwyddyn galendr. Amlygwyd bod yr amcanion cydraddoldeb wedi'u cyflwyno'n flaenorol i Bwyllgor Craffu'r Cabinet, fel un o'r dyletswyddau cyfreithiol penodol a oedd gan y cyngor, ac yn awr cyflwynwyd i'r Aelodau y camau gweithredu i roi'r amcanion hynny ar waith, y byddai angen eu hadrodd i'r cyngor llawn i gymeradwyo'r cynllun gweithredu. O ran perthnasedd a blaenoriaethau’r cynllun gweithredu, nodwyd y byddai angen adolygu'r rhain yn barhaus oherwydd pa mor gyflym y mae amgylchiadau'n newid, er enghraifft pe bai mwy o swyddi'n cael eu colli yn y gymuned, gallai hyn achosi newid yn y pwyslais ynghylch rhai o'r camau gweithredu; roedd nifer o gamau gweithredu a oedd yn deillio o'r hen gynllun ac roedd meysydd gwaith newydd hefyd, gan gynnwys gwaith o gwmpas y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yr oedd angen ei flaenoriaethu. Ychwanegwyd bod pryderon ynghylch anghydraddoldebau cyn y pandemig, fodd bynnag dros y naw mis diwethaf roedd hyn wedi ehangu ac roedd rhai grwpiau o fewn y gymuned, a chymuned Pobl Dduon, Asiaidd a

Lleiafrifoedd Ethnig yn arbennig, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig a oedd yn cadarnhau bod angen addasu blaenoriaethau i dargedu'r broblem hon. O ran monitro, dywedodd y Prif Weithredwr (Karen Jones) y byddai trefniadau'r Pwyllgor yn cael eu hadolygu ym mis Ionawr 2021 ac y byddent yn cynnwys trafodaethau ynghylch hyd agendâu'r cyfarfod, llwyth gwaith staff a goruchwyliaeth ddemocrataidd. Soniwyd y gallai Pwyllgor Craffu'r Cabinet gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ei Flaenraglen Waith i'w fonitro yn rheolaidd.

Cofnododd Swyddogion wall teipio yn yr adroddiad a nodwyd gan yr Aelodau.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Canmoliaethau a Chwynion 2019/2020

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion, y canmoliaethau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Mynegwyd pryderon ynghylch yr ymddygiad treisgar ac ymosodol yr oedd staff yn destun iddo ar brydiau; Gofynnwyd i Swyddogion roi rhagor o fanylion am hyn. Hysbyswyd yr Aelodau fod y cyfeiriadau a nodir yn yr adroddiad yn ymwneud yn benodol ag achosion unigol drwy gydol y flwyddyn, lle'r oedd gan y cyngor rai ymddygiadau anodd iawn i ymdrin â hwy gan nifer fach iawn o breswylwyr; yn sgîl hyn bu'n rhaid ailfeddwl am y ffordd y mae'r cyngor yn rheoli cyswllt â'r unigolion hynny. Soniwyd bod un o'r digwyddiadau hynny'n cynnwys aelod o'r cyhoedd yn ymosod ar Arweinydd y Cyngor yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot. Nodwyd, yn ffodus, fod y rhan fwyaf o'r bobl sydd mewn cysylltiad â'r cyngor yn gwrtais ac ymdriniwyd â'r cysylltiadau hynny heb unrhyw broblemau; fodd bynnag, roedd y cyngor mewn sefyllfa lle'r oedd angen cyflwyno mesur i ddiogelu staff ac mewn nifer bach iawn o ddigwyddiadau, bu'n rhaid cymryd camau gweithredu i gyfyngu ar y ffordd y gallai rhai aeloda'r cyhoedd gael cyswllt â'r cyngor. Ychwanegodd Swyddogion y bu unigolion a oedd yn ymosodol iawn ar lafar, unigolion a anfonodd nifer parhaus o negeseuon e-bost sy'n cymryd llawer o amser i ymdrin â hwy, ac mewn rhai amgylchiadau eithriadol wedi cael unigolion yn cyrraedd ac yn ymddwyn yn ymosodol, yn gorfforol, ac yn dreisgar yn y swyddfeydd, lle'r oedd angen cynnwys yr heddlu. Er bod nifer bach o ddigwyddiadau, amlygwyd ei fod wedi cael effaith enfawr ar staff, felly

roedd Swyddogion yn sicrhau bod y staff hynny'n cael cymorth a bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu cryfhau.

Yn dilyn y broses graffu, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

<u>Gwasanaeth Cwnsela Camddefnyddio Sylweddau - Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin</u>

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad mewn perthynas â Gwasanaeth Cwnsela Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin.

Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd cyllid ar gyfer y maes gwaith penodol hwn, gan y gallai helpu i atal marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau; Gofynnwyd i Swyddogion roi rhagor o fanylion am yr arian sy'n cael ei dderbyn, gan gynnwys y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF). Esboniodd Swyddogion mai grant a ddarparwyd i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru oedd y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau; roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn bartneriaeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor a'i bartneriaid ei sefydlu, a gwaith y bartneriaeth honno oedd penderfynu sut y defnyddiwyd y grant hwnnw. Nodwyd yn y rhanbarth fod cyfres o wasanaethau sy'n cefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a oedd wedi bod yno am beth amser; trwy gwblhau'r gwaith gwella, nodwyd bod angen datblygu gwaith i gydgysylltu'r gwasanaethau at ddibenion y defnyddwyr gwasanaeth y byddai angen iddynt gael mynediad iddynt. Dywedodd Swyddogion fod gormod o ddarnio ar hyn o bryd gyda phobl yn cael eu trosglwyddo o wahanol rannau o'r system, yn ogystal ag ôl-groniad mewn rhai mannau lle'r oedd rhestrau aros a oedd yn broblem gan fod angen i staff allu ymateb i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny mewn modd amserol; byddai'r Rheolwr Strategol ar gyfer Partneriaethau a Chydlyniant Cymunedol (Claire Jones) yn cefnogi ymarfer y flwyddyn nesaf i ailgomisiynu'r gwasanaethau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau eu bod yn dod yn fwy addas at y diben, fodd bynnag byddai'n cymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd i dreiddio drwy'r system gyfan. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion, yn y cyfamser, wedi bod yn edrych yn fwy beirniadol ar yr hyn yr oedd yr arian yn ei wneud yn y gwasanaethau presennol, ac yn yr achos penodol hwn gyda gwasanaethau cwnsela, dangosodd yr adroddiad fod gormod o arian yn cael ei neilltuo am faint o angen yr oedd y gwasanaeth yn ei gefnogi ar hyn o bryd; roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn gofyn am i beth o'r arian, nad oedd ei angen yn y gwasanaeth penodol, gael ei ailgyfeirio i helpu staff i ddarparu

mynediad mwy amserol i'r bobl hynny yr oedd angen cymorth arnynt. Ychwanegwyd mai'r bwriad oedd rhoi'r arian sbâr yn y gwasanaethau rhagnodi trothwy isel. Esboniodd Swyddogion mai un diffyg yn y model presennol oedd nad oedd digon o gymorth mewn gofal sylfaenol i bobl a oedd yn gaeth i sylweddau, gan olygu bod pobl yn aros yn rhy hir yn y gwasanaeth gofal eilaidd (gwasanaethau sylfaen ysbytai) a oedd yn golygu bod y gwasanaethau hyn yn llawn ac na allent dderbyn unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth newydd; roedd angen mwy o adnoddau yn rhan gofal sylfaenol y system ar gyfer y rhai a oedd yn sefydlog neu a allai ddiwallu eu hanghenion fel hyn, a fyddai wedyn yn arwain at ragor o adnoddau yng ngofal eilaidd i ymdrin â'r achosion mwy cymhleth mewn modd amserol.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Rhaglen Adsefydlu Syriaid: Gwasanaeth Cefnogi

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar Raglen Adsefydlu'r Syriaid (Gwasanaeth Cefnogi); nododd yr adroddiad fod un teulu wedi gwrthod cefnogaeth a bod dau deulu wedi gadael y rhaglen, gofynnodd yr Aelodau a ellid esbonio'r rhesymau dros hyn. Nodwyd bod rhesymau gwahanol, dilys dros pam bod teuluoedd wedi symud i ffwrdd er enghraifft, cyfleoedd swyddi neu am eu bod am fod mewn cymuned wahanol.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer CNPT 2020

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer CNPT ar gyfer 2020 i'r Pwyllgor ac amlygodd Swyddogion fod y cyngor mewn sefyllfa gadarnhaol i gyflawni'r amcanion ansawdd aer; nododd yr adroddiad y flwyddyn galendr 2019, felly nid oedd effaith cyfyngiadau symud COVID-19 o reidrwydd wedi'i chynnwys yn y manylion.

Mynegwyd pryderon mewn perthynas â thystiolaeth o ddiffyg chydymffurfiaeth â lefelau nicel yn Tawe Terrace a gofynnwyd a oedd gwaith Vale Inco yng Nghlydach hefyd yn effeithio ar y lefelau yn ogystal â'r brif ffynhonnell, gwaith Wall Colmonoy; Gofynnodd yr Aelodau hefyd am ragor o fanylion ynghylch y mater hwn gan mai nod y cyngor oedd lleihau'r allyriadau. Cadarnhaodd Swyddogion mai Wall Colmonoy oedd y broblem a oedd yn achosi'r diffyg cydymffurfio; cychwynnwyd y gwaith o fonitro gwaith metel Vale Inco gan hen Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw, ond parhaodd y gwaith monitro yn

dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol. Ychwanegodd Swyddogion y bu'n ofynnol iddo adleoli'r samplwr o'r man lle'r oedd yn Nhrebannws i Bontardawe oherwydd bod gwaith carthffosiaeth Trebannws wedi'i uwchraddio; fodd bynnag, mae'r mesuriadau yng nghanolfan hamdden Pontardawe yn parhau i fonitro effaith allyriadau nicel o waith Vale Inco ac roedd yn arddangos lefelau isel. Mewn perthynas â sut yr ymdrinnir â'r mater o ddydd i ddydd, nodwyd mai cyfrifoldeb y cyngor oedd rheoleiddio'r gweithredwr penodol hwn a byddai Swyddogion yn edrych ar well rheoleiddio o ran gweithdrefnau cynnal a chadw a'r Technegau Gorau sydd ar Gael; roedd y sgyrsiau a'r materion hyn yn parhau, fodd bynnag byddai'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (Ceri Morris) yn cysylltu â'r Swyddog perthnasol i gasglu rhagor o fanylion i Aelodau, y tu allan i'r cyfarfod.

Hysbyswyd yr Aelodau mai'r gwaith diwydiannol penodol hwn oedd y mwyaf rheoledig yng Nghastell-nedd Port Talbot a bod y sefyllfa mewn perthynas â Wall Colmonoy yn fater difrifol; Mae Swyddogion, gyda chydweithwyr eraill o sefydliadau eraill, yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod y cyngor yn sicrhau gwelliant, ac mae hynny wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd, fodd bynnag roedd gwaith pellach i'w wneud o hyd. Ychwanegwyd bod Swyddogion yn rhoi llawer o bwysau ar y cwmni, sydd wedi gwella eu systemau cynnal a chadw a rheoli ers hynny.

Gofynnwyd pa mor hir y bu'r mater hwn yn mynd rhagddo, a dywedodd Swyddogion y byddai'n rhaid iddynt gadarnhau beth oedd y lefelau dros y blynyddoedd cyn 2019 a darparu'r wybodaeth hon i Aelodau yn dilyn y cyfarfod, fodd bynnag gwyddys bod y lefelau'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Soniwyd bod y mater hwn wedi'i nodi'n flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy; nid oedd yn sefyllfa newydd, fodd bynnag roedd yn gwella a oedd yn dangos bod y gwaith a wnaed gyda Swyddogion wedi sicrhau rhyw fath o lwyddiant.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, nad oedd llwch niwsans sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yng ngwaith Tata Steel yn cael effaith ar iechyd yn yr un modd â llygryddion eraill; Gofynnodd yr Aelodau pa fesuriadau a ddefnyddiwyd i benderfynu ar hyn a sut y gallai Swyddogion fod yn siŵr nad oedd yn cael effaith gynyddol ar iechyd pobl. Cytunwyd y byddai Swyddogion yn darparu'r wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod ac mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a allai Swyddogion ystyried y ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthi'n cymeradwyo simnai 90 metr yn agos at Lyn-nedd a phwysleisiodd bwysigrwydd monitro'r ardal hon yn rheolaidd ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.

Gofynnwyd a oedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch cywirdeb y broses fonitro ei hun oherwydd bod y lefelau alldafliadau yn Prince Street a Gorsaf Dân Port Talbot yn wahanol iawn er bod y safleoedd yn eithaf agos at ei gilydd. Nodwyd nad oedd unrhyw bryderon ar hyn o bryd mewn perthynas â chywirdeb y broses fonitro oherwydd er bod y ddau safle yn agos at ei gilydd, ni fyddai disgwyl o reidrwydd i'r canlyniadau fod yn union yr un peth ac yn cyfateb drwy'r amser; mae'n ymddangos bod effaith lygrol y gwaith dur i'w theimlo'n bennaf yng nghyffiniau safle Prince Street ac roedd y graddau y byddai pob safle'n cael ei effeithio yn dibynnu ar rai newidynnau gan gynnwys, ym mha ffynonellau yn y cyffiniau yr oedd y ffwrneisi chwyth yn cynhyrchu'r llygredd ac i ba gyfeiriad y mae'r gwynt yn chwythu ar unrhyw adeg.

Yn dilyn y broses graffu, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

5. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

6. **<u>CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU</u>**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol:

<u>Rhwydwaith Cymorthdaledig Cludiant i Deithwyr</u>

Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad preifat ar y Rhwydwaith Cymorthdaledig Cludiant i Deithwyr.

Yn dilyn y broses graffu, nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

**CADEIRYDD**